Menter Iaith Sir Ddinbych

Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1 EBRILL 2009 – 31 MAWRTH 2010

ELUSEN GOFRESTREDIG 1120223
CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT 6204415

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

communities first cymunedau yn gyntaf

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG · WELSH
LANGUAGE BOARD

Supported by
The National Lottery®
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

ARIENNIR EIN GWEITHGAREDDAU HEFYD GAN GYNGOR TREF DINBYCH,
CYNGOR TREF Y RHYL, A CHYNGOR TREF RHUTHUN

Cynnwys

Gair gan y Cadeirydd	3
Beth yw Menter Iaith?	4
Menter Iaith Sir Ddinbych	4
Strwythur a Staff y Fenter 2009-10	4
Aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Ddinbych	4
Disgrifiad o'r Ardal a wasanaethir	6
Nod ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	6
Blas ar weithgareddau Menter Iaith Sir Ddinbych	7
Blas ar weithgareddau Corwen	8
Blas ar weithgareddau Rhuthun	9

Menter Iaith Sir Ddinbych
Adeilad Deiamwnt
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

Ffôn: 01745 812822
Ffacs: 01745 818601
E-bost: ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk
Gwefan: www.mentrauiaith-gogledd.com

Gair gan y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn 2009 - 2010 croesawyd rhai aelodau newydd o staff a ffarweliwyd ag eraill. Tîm brwdfrydig a gweithgar oedd yn arwain y Fenter yn ystod y flwyddyn a hoffwn ddiolch iddynt i gyd am eu hymroddiad. Penodwyd Gwawr Cordiner dechrau mis Hydref 2009 ymlaen fel Rheolwr y Fenter. Yn ogystal, penodwyd Geraint Lyall fel Swyddog Datblygu Cymunedol wedi i Cerian Ellis adael y Fenter i weithio yng Ngholeg Llysfasi. Roedd Iorwen Jones yn parhau i weithio'n brysur iawn fel Swyddog Cyllidol a Gweinyddol tra roedd Anne Lloyd yn dal i weithio'n galed yng ngogledd y Sir, ble hyrwyddwyd nifer o brosiectau diddorol yn ystod y flwyddyn. Hoffwn ddiolch i Gwawr Cordiner am ei chyfraniad i'r Fenter ac i Cerian Ellis am ei chyfraniad yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Diolch o galon hefyd i Iorwen Jones am ei gwaith diwyd yn arwain y Fenter yn ystod y cyfnod o bedwar mis pan nad oedd Prif Swyddog mewn swydd. Diolch hefyd i Gyfarwyddwyr a Chyfeillion y Fenter am eu cymorth, eu hamser, eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad.

Rydym wedi cydweithio yn effeithiol gyda nifer o bartneriaid eraill yn ystod y flwyddyn, megis Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Athrawon Bro, Ffermwyr Ifanc, Cynlluniau Gweithredu Iaith Rhuthun a Corwen, Popeth Cymraeg, Papurau Bro, Merched y Wawr, maes Cymraeg i Oedolion, ysgolion, busnesau a chyrff sirol gan gynnwys y Cyngor Sir. Diolch i chwi oll am eich cyfeillgarwch a'ch bodlonrwydd i rannu amser ac arbenigedd gyda ni. Cydnabyddwn ein noddwyr ar gyfer y flwyddyn sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Ddinbych, y Loteri Fawr, Cronfa Cymunedau'n Gyntaf a Chynghorau Tref Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Heb gefnogaeth noddwyr ni fyddwn yn medru gweithredu fel Menter, ac mae eich nawdd yn sicr wedi esgor ar gyrraedd targedau pwysig ym maes hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd ein Sir. Bu'n flwyddyn brysur i'r Fenter, ble y gwelwyd nifer o gynlluniau yn cael eu datblygu. Creuwyd nifer o furluniau yn ystod y flwyddyn. Lluniwyd Murlun y dysgwyr ym Mis Mawrth 2009 ble roedd grŵp o 10 dysgwr Cymraeg wedi creu murlun am afonydd a bywyd gwyllt Sir Ddinbych. Roedd y 10 wedi mynychu gweithdai celf ac yn cyfarfod am 3 awr yr wythnos - roedd hyn yn gyfle gwych i ddefnyddio ac i ddatblygu'r iaith wrth gymdeithasu. Derbyniodd Ysgol Dewi Sant y Rhyl y murlun fel rhodd. Yn ogystal, lluniwyd murluniau am y Mabinogi gan 60 o ddisgyblion Ysgol y Gwernant, Llangollen. Yn ysgol Cefn Meiriadog cafodd 30 o blant yr ysgol y profiad o greu gwaith celf ar y thema Branwen. Ym Mhrestatyn, creodd disgyblion Ysgol y Llys furlun am Batagonia. Roedd 100 o blant yr ysgol wedi bod yn rhan o'r prosiect. Cynhaliwyd Cyngerdd Patagonia yn ystod Mis Ebrill 2009 a daeth tyrfa sylweddol o dros 200 i'w glywed. Llwyddwyd y cyngerdd i godi swm sylweddol o arian i bobl ifanc y sir gael mynd ar Daith Wirfoddol Mentrau Iaith y Gogledd a'r Urdd i Batagonia yn ystod Hydref 2009 a oedd yn gyfle arbennig iddynt. Cynhaliwyd Gŵyl y Castell yn ystod Mis Medi 2009, ble daeth artistiaid lleol ynghyd â Chôr Glanaethwy i ddiddori cynulleidfa o dan olau'r sêr! Roedd yn noson hyfryd, a gobeithio y bydd y digwyddiad yma yn datblygu o nerth i nerth. Ym Mhrestatyn daeth 40 o blant a rhieni i ymuno yn hwyl y Cwis Clwb Hwyl Hwyr ym Mis Chwefror. Yn ystod Mis Mawrth cynhaliwyd yr ŴYl Fwyd ble daeth 60 o drigolion i flasu danteithion amrywiol. Hefyd, dechreuwyd gwersi Cymraeg i rieni Ysgol Twm o'r Nant yn ystod y Pasg. Mae'n hanfodol meithrin cysylltiad cryf rhwng y fenter a'r Prosiect Meithrinfeydd. Rhwng Ionawr 2010 a Mawrth 2010, teithiodd Sali Mali a Sam Tân lyfrgelloedd a Chylchoedd Ti a fi. Roedd yn gyfle gwych i ddarbwyllo manteision dwyieithrwydd i rieni'r Sir. Llwyddwyd i gyrraedd 240 o deuluoedd. Yn ystod y gweithgaredd yma, dosbarthwyd 200 o ffolderi Melyn a CD - Cymraeg, ffordd o fyw, a hefyd Llyfryn Manteision Addysg dwyieithrwydd a ffurflen aelodaeth y Fenter. Trefnwyd Diwrnod dathlu Dewi Sant yn swyddfeydd y Cynulliad yn Llanelwy. Yn ystod y dathliadau, rhoddwyd cyflwyniad am waith y Fenter ac ymunodd ysgolion Dewi Sant ac Ysgol y Llys i ganu a dawnsio Gwerin i'r staff. Yn wir, datblygwyd nifer o weithgareddau yn ysgolion cynradd ac Uwchradd y Sir. Yn Ysgol Glan Clwyd, cynhaliwyd gweithdai drymio, dawnsio ac animeiddio.

Wrth ddarllen gweddill yr adroddiad cewch flas o'r hyn aeth ymlaen yn ystod y flwyddyn, a chredaf y byddwch, fel finnau, yn llongyfarch y Fenter ar flwyddyn effeithiol arall o hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd yn Sir Ddinbych. Edrychwn

ymlaen i'r dyfodol yn hyderus, gan weld y prosiectau lu yn dwyn ffrwyth, ac yn gwneud gwir effaith ar ddatblygiad dwyieithrwydd yn y fro.

Nerys Davies
Cadeirydd

Beth yw Menter Iaith?

Mae gwahaniaethau mawr rhwng pob Menter Iaith ond er y gwahaniaethau yn natur yr ardaloedd a wasanaethir gan fentrau iaith mae rhai gweithgareddau craidd yn gyffredin iddynt oll sef : hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol naturiol, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weledol (ar arwyddion / posteri a.y.b.), hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng busnes, hyrwyddo trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd ac yn gyffredinol, marchnata'r budd o fod yn ddwyieithog.

Ariennir holl Fentrau Iaith Cymru yn rhannol gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg ac yn rhannol gan ffynonellau cyllidol eraill.

Mae pob Menter Iaith yn gorff gwirfoddol a chanddi aelodau a phwyllgorau llywio. Mae rhai mentrau wedi cofrestru fel elusennau a rhai fel busnesau cyfyngedig trwy warant yn ogystal.

Menter Iaith Sir Ddinbych
Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan ddaeth yn Fenter hollol ar wahân ac annibynnol i Fenter Iaith Dinbych-Conwy. Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn sydd wedi eu dethol o'r aelodaeth ehangach. Mae croeso i unrhyw un sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y Fenter ddod yn aelod.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych



Cyfarwyddwyr ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Ddinbych Hydref 2008

Cyfarwyddwyr:

Cadeirydd	Nerys Davies	Unigolyn	Ionawr 2009
Is – Gadeirydd	Gwenan Roberts	Unigolyn	Hydref 2006
Trysorydd	Ceri Evans	Unigolyn	Tachwedd 2006
Ysgrifennydd	Caryl Vaughan	Unigolyn	Hydref 2006
	Arwyn Jones	Popeth Cymraeg	Hydref 2006
	Morfudd Jones	Cynllun Iaith Ardal Rhuthun	Hydref 2006
	John Glyn Jones	Unigolyn	Hydref 2009

Mae gan Fenter Iaith Sir Ddinbych swyddogion cyflogedig a apwyntiwyd i gyflawni nodau ac amcanion y fenter. Fe'u lleolir yn Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad, Dinbych. Fe ariannir y swyddi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Ddinbych, Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri a Chynllun Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych - Cymorth

Staff y Fenter 2009-2010

Prif Swyddog – Dylan Jones
Cafodd Dylan ei benodi'n Brif Swyddog y Fenter ym Mis Rhagfyr 2007 dros gyfnod mamolaeth Cerian, a chafodd ei benodi yn Brif Swyddog parhaol ym mis Rhagfyr 2008. Ymadawodd a'r Fenter ym Mehefin 2009 i weithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Rheolwr - Gwawr Cordiner
Ymunodd Gwawr Cordiner fel Rheolwr am un diwrnod yr wythnos o ddechrau mis Hydref 2009 hyd Fawrth 2010. Caiff y swydd yma ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Swyddog Cyllid/Gweinyddol - Iorwen Jones
Penodwyd Iorwen ar ddechrau Ebrill 2004 ac mae hi'n gweithio 28 awr yr wythnos. Bu Iorwen yn gweithredu fel Prif Swyddog o fis Fehefin tan fis Hydref 2009 am gyfnod cyn i Gwawr Cordiner ddod i ymuno ar Fenter fel Rheolwr Rhanbarthol.

Swyddog Datblygu – Cerian Ellis
Bu Cerian i ffwrdd am gyfnod o wyliau mamolaeth hyd at fis Mai 2009 ac ymadawodd a'r Fenter ym mis Chwefror 2010 i weithio gyda Choleg Llysfasi

Swyddog Addysgol Treftadaeth Iaith - Gerallt Lyall
Cafodd Gerallt ei benodi i'r swydd hon ym mis Medi 2007. Cytundeb dwy flynedd wedi'i ariannu'n bennaf gan y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri oedd y prosiect hwn a ddaeth i ben ym mis Medi 2009 Penodwyd Gerallt yn Swyddog Datblygu Cymunedol ym mis Hydref 2009. Ariennir y swydd hon gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Ddinbych. Mae Gerallt yn gweithio 37 awr yr wythnos

Swyddog Plant a Phobl Ifanc – Cymorth – Anne Lloyd
Penodwyd Anne Lloyd yn Swyddog Datblygu Plant a Phobl Ifanc yn ardaloedd De Orllewin y Rhyl, Gorllewin Rhyl, Dinbych Uchaf, Bodelwyddan a Gallt Melyd ym mis Ebrill 2009. Mae Anne yn gweithio 30 awr yr wythnos. Ceir y swydd hon ei ariannu gan Gynllun Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych – Cymorth.

Disgrifiad o'r Ardal a wasanaethir gan Fenter Iaith Sir Ddinbych

Mae 93,065 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych ac mae 26% o'r rheini yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001. Ar hyd yr arfordir a ffin ddwyreiniol Sir Ddinbych ceir cymunedau megis Prestatyn, Y Rhyl, a Llanbedr D.C. ble mae canran y boblogaeth a aned yng Nghymru cyn ised neu yn is na 50%. Mae'r patrwm o newid demograffig a achosodd hyn (ac sy'n dal i ddigwydd) wedi cael effaith sylweddol ar ganrannau siaradwyr Cymraeg y Glannau sydd yn is, ar gyfartaledd na 20% erbyn hyn.

Yn ardal Llangollen gwelir yn ôl cyfrifiad 2001 mai isel iawn yw canran y siaradwyr Cymraeg, er bod y pentrefi gwledig cyfagos megis Bryneglwys a Llandegla a chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. I'r De o'r A55 ceir cymunedau gwledig gyda chanran y boblogaeth a aned yng Nghymru gryn dipyn yn uwch a chanran uwch o lawer yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn wir am yr ardal wledig sy'n ymestyn o'r A525 i lawr i Ddyffryn Clwyd draw at ffiniau Gorllewin Sir Conwy, er bod hyn erbyn hyn yn dechrau newid. Roedd canran siaradwyr Cymraeg yr ardal hon yn ôl cyfrifiad 1991 rhwng 60% a 80%, ond erbyn cyfrifiad 2001 mae'r ffigwr yn fwy tebygol o fod rhwng 40% a 60%.

Nodau ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych

Amcan yr elusen yn ôl ei chyfansoddiad yw: **'Hyrwyddo addysg trigolion Sir Ddinbych o ran defnyddio'r Iaith Gymraeg'**

Gwneir hyn drwy:

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymysg poblogaeth y Sir ym mhob agwedd o fywyd.
2. Sicrhau bod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr ddysgu'r Gymraeg ac i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.
3. Sicrhau bod yr holl ystod o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir yn datblygu i fod yn gwbl ddwyieithog.
4. Mae'r uchod yn nodau hir dymor ac ni ellir eu cyflawni dros nos. Maent fodd bynnag yn gosod ein hagenda yn gwbl ddiamwys ac mae'n amcanion tymor canolig yn deillio'n naturiol ohonynt.

Amcanion

Prif amcan y Fenter yw hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl sy'n preswylio o fewn ffiniau Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos yn unol â chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Rheoli trwy gyflawni'r canlynol:

i) Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith yn y sector breifat, ac anelu at wneud y Gymraeg yn ased economaidd

ii) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog

iii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iv) Annog a chynorthwyo i drefnu a chynnal digwyddiadau newydd
   a. i bontio rhwng ysgol a chymdeithas
   b. i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion
   c. i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol

v) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg

vi) Trefnu gweithgareddau ar gyfer ieuenctid i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg.

vii) Hyrwyddo Trosglwyddiad Iaith o fewn teuluoedd

viii) Cyflwyno datganiadau yn rheolaidd i'r cyfryngau ynglŷn â'n cynlluniau/prosiectau. Cydweithio â Mentrau eraill i farchnata a rhannu arfer da.

Blas ar weithgareddau/prosiectau
Ebrill 09 - Mawrth 10

Staff - Bu'r holl staff yn weithgar iawn dros y flwyddyn gan gyflawni'r holl dargedau a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Blas ar weithgareddau Menter Iaith Sir Ddinbych

Swyddog Datblygu
Cynhaliwyd cyngerdd i godi arian at ddanfon criw o bobl ifanc i ymweld â'r Wladfa ym Mhatagonia yn Neuadd y Dref Dinbych gyda phobl leol talentog yn cymryd rhan. Daeth 220 pobl i'w weld.
Cynhaliwyd Cwis Clwb Hwyl Hwyr Prestatyn yn ystod mis Chwefror gyda 40 o blant a rhieni yn cystadlu.
Cawson Noson Gŵyl Fwyd yn y Brwcws yn Ninbych. Daeth 60 o bobl i'r noson i brofi cynnyrch gwych yr ardal.
Daeth cymeriadau S4C Holi Hanna a Bert i Noson Goleuo Dinbych i ddiddani'r plant a dosbarthu gwybodaeth ym mis Rhagfyr 2009.
Fel rhan o brosiect hyrwyddo'r manteision magu plant yn ddwyieithog ymwelwyd staff y Fenter, Sali Mali a Sam Tan â meithrinfeydd, llyfrgelloedd a chylchoedd Ti a Fi rhwng Ionawr a Mawrth 2010. Dosbarthwyd 200 o ffolderi Melyn gyda CD "Cymraeg ffordd o fyw", y llyfryn 'Manteision Addysg Dwyieithrwydd' a ffurflen aelodaeth y Fenter.
Cynhaliwyd diwrnod dathlu Gŵyl Dewi Sant yn swyddfeydd y Cynulliad yn Llanelwy gyda chyflwyniad am waith y Fenter. Roedd plant ysgolion Dewi Sant ac Ysgol y Llys yn canu a dawnsio gwerin i ddiddanu'r staff.
Trefnwyd gweithdai drymio, dawnsio ac animeiddio yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy gyda 24 o bobl ifanc yn mynychu.

Swyddog Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych
Cynhaliwyd gweithdy Rapio gyda Ed Holder (Mr Formula) yn ysgol Uwchradd Dinbych dydd Gwener 26ain o Chwefror gyda 65 o blant blwyddyn 7 a 9. Cafodd y plant gyfrannau yn ystod y gweithdai drwy gyfansoddi ac ysgrifennu geiriau a pherfformio yn fyw o flaen eu cyfoedion.
Cynhaliwyd Gig arall gydag Ed Holden yn Neuadd y Dref, Dinbych, fel rhan o ddathliadau'r dref ar gyfer Gŵyl Dewi ar ddydd Sadwrn 27ain o Chwefror 2010. Roedd hyn yn adeiladu ar y gweithdai a gynhaliwyd yn yr Ysgol Uwchradd gyda'r bwriad o roi'r cyfle i rai o'r bobol ifanc berfformio eu caneuon.
Cynhaliwyd gweithdai crefft Addurniadau'r Nadolig yn RAPA gyda Chymorth, myfyriwr Celf a Dylunio Coleg Iâl, Wrecsam, a Swyddog RAPA . Daeth 15 o blant a phobl ifanc i'r gyfres o 4 gweithdai a 30 i gweithdy arall. Cafodd y plant gyfle i greu cardiau Nadolig Cymraeg ac addurniadau Nadolig ar themâu Cymreig ac roedd yn gyfle i gyflwyno geiriau ac ymadroddion mewn perthynas â'r Nadolig yn y Gymraeg iddynt.
Cydweithiwyd mewn partneriaeth gydag ysgol Uwchradd y Rhyl i greu murlun Batic i'w arddangos wrth brif fynedfa'r ysgol. Cynhaliwyd gweithdai animeiddio gyda'r artist Deiniol Morris (a greodd 'Y Gogs') yn Ysgol Llywelyn y Rhyl gyda 30 o blant blwyddyn 6. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda'r plant cyn cynnal y gweithdai er mwyn rhoi cyfle iddynt gael trafod eu hunaniaeth Gymreig a'r diwylliant Cymraeg a datblygu syniadau er mwyn eu cynhorthwy gyda'r proses o greu murlun.
Trefnwyd gwibdaith i ymweld â chofeb Gelert ym Meddgelert gyda mudiad RAPA yn ystod gwyliau hanner tymor Mis Chwefror. Aeth 5 o blant a phobl ifanc ar y daith.
Cynhaliwyd gweithgaredd cartio ym Mharc Glan y Gors, Cerrigydrudion ym Mis Hydref. Cafodd 11 o bobl ifanc o RYAG, 9 o bobl ifanc o RAPA a 12 o brosiect Dinbych Uchaf gyfle i fynd ar y daith
Cynhaliwyd dau gwrs o wersi 'Cyfarch' mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo fel rhan o NVQ Lefel 1 Gwasanaeth Cwsmeriaid o fewn cwrs manwerthu.
Sefydlwyd Clwb CIC Cymraeg i bobl ifanc 11-16 oed a chynhaliwyd 3 sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith a Chyfarch a 2 cwis (1 ynglŷn â chartio a'r llall am y Nadolig) gyda 30 o blant a phobl ifanc mewn partneriaeth a Chymunedau'n Gyntaf.
Cawson gydweithio gyda chwmni 'Tape' a phlant a phobl ifanc cynllun RYAG i baratoi a chyflwyno rhaglen radio yn ystod wythnos Gŵyl Ddewi.

Aethpwyd i drac cartio yng Nghlan y Gors, Cerrigydrudion gyda 12 o bobl ifanc 13-16 oed ac wedyn galw i weld y murlun er cof am Tom Pryce yn dref Rhuthun.
Cynhaliwyd amryw o weithgareddau megis drymio gyda'r bobl ifanc er mwyn darparu cyfle iddynt gymdeithasu yn y Gymraeg.
Fel rhan o brosiect Dinbych Uchaf cynhaliwyd sesiwn beicio yn Llandegla i bobl ifanc yr ardal. Maen nhw bellach yn gwneud uned RhyCA (OCN) mewn sgiliau beicio mynydd a chymorth cyntaf.
Cynhaliwyd 2 weithdy 'Cyflwyno'r Gymraeg' trwy gemau 'parasiwt' gyda Swyddog Plant a Phobl ifanc y DVSC ac 1 sesiwn 'Y stori tu ôl i'r lliw'. Cynhaliwyd cyfres o 5 gweithdy Celf er mwyn i 22 o blant a phobl ifanc greu 13 o ddarnau 2D a 3D er mwyn eu arddangos yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010.

Treftadaeth
Arianwyd y prosiect hwn gan y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Prif bwrpas y prosiect oedd addysgu trigolion Sir Ddinbych am hanes a diwylliant yr iaith Gymraeg. Roedd y Swyddog Addysgol Treftadaeth Iaith yn gweithio'n agos gydag ysgolion a chymunedau ledled y sir.
Cafwyd y cyfle i weithio mewn partneriaeth gyda 10 o ddysgwyr Cymraeg a mynychodd gweithdai Celf am 3 awr unwaith yr wythnos am 6 wythnos er mwyn ymarfer a chryfhau eu Cymraeg a chreu murlun am afonydd a bywyd gwyllt Sir Ddinbych. Erbyn hyn mae'r murlun wedi'i roi fel rhodd i Ysgol Dewi Sant y Rhyl. Roeddem hefyd yn gweithio gyda Phlant Ysgol Cern Meiriadog i wneud murlun ar thema Branwen a daeth 30 o blant i brofi'r gweithdai. Creuwyd murlun hefyd gyda phlant ysgol Y Llys Prestatyn lle cyfranodd tua 100 o blant.

Cynlluniau Ardal Bwrdd yr Iaith - Parhau mae'r cydweithio da rhwng swyddogion Cynllun ardal Rhuthun a Chorwen. Rydym yn cyfarfod yn gyson i rannu syniadau ac arfer da yn ogystal â chydweithio yn yr ardaloedd penodedig pan ddaw'r angen.

Blas ar weithgareddau Cynllun Iaith Ardal Corwen

Yn ystod y flwyddyn 2009 - 2010 ehangwyd ffin Cynllun Gweithredu Iaith Bro Edeyrnion i ardal Penllyn y Bala. Targed gwaith y cynllun yn Sir Ddinbych eleni oedd y meysydd canlynol;

Teuluoedd
Cydweithiwyd gyda gwirfoddolwr i sicrhau nawdd gan y gronfa loteri i gynnal Parti yn y Parc gyda Martyn Geraint. Cydweithiwyd gyda swyddogion MYM a Twf i hyrwyddo manteision y Gymraeg i dros hanner cant o deuluoedd. Cefnogwyd noson o Adloniant i Deuluoedd Dwyieithog yn yr eglwys leol.

Ieuenctid
Cydweithiwyd gyda'r grŵp pypedau, ysgolion lleol, academi a'r gymuned i gyflwyno'r sioeau i dros gant blant a theuluoedd yn ardaloedd Llandrillo, Gwyddelwern a Chynwyd.

Cryfhau Cymunedau Cymraeg.
Cefnogodd y cynllun noson o adloniant Cymreig yng nghwmni Wil Tân a drefnwyd gan wirfoddolwyr o ardal Betws Gwerfil Goch. Llwyddwyd i ddenu teuluoedd dwyieithog i'r gynulleidfa. Sicrhawyd cefnogaeth gwirfoddolwyr i hyrwyddo ymgyrchoedd Bwrdd yr Iaith gan ddosbarthu dros ugain o gopïau prosiect eiriol. Cydweithiwyd gydag aelodau'r grŵp busnes i ddosbarthu gwybodaeth am wasanaeth llinell gyswllt ymysg y busnesau lleol ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Cynhaliwyd gweithgareddau i hyrwyddo Dydd Glyndŵr gyda chymorth pwyllgor llywio.

Ymwybyddiaeth Iaith
Dylanwadwyd ar gynulleidfaoedd ym meysydd, plant, ieuenctid, a chwaraeon. Cydweithiwyd i gynnal sesiynau hyrwyddo'r Gymraeg gyda swyddogion yr Urdd, CFFI, Gwasanaethau Ieuenctid a Chwaraeon Cyngor Sir Ddinbych. Y cynulleidfaoedd a dderbyniodd y cyflwyniadau oedd plant cynradd ysgol Gwyddelwern a Llandrillo, ieuenctid CFFI Edeyrnion,

aelodau clybiau pêl droed a rygbi Corwen, a swyddogion a hyfforddwyr Canolfan Hamdden Corwen a chlybiau Ieuenctid y sir.

Blas ar weithgareddau Cynllun Iaith Ardal Rhuthun

Prif ffocws gwaith Cynllun Gweithredu Iaith Ardal Rhuthun am y flwyddyn 2009/2010 oedd Teuluoedd, Ieuenctid a Chryfhau Cymunedau Cymraeg.

Yn dilyn trafodaethau gydag arweinydd y Sgowtiaid yn Rhuthun ynglŷn â chyflwyno'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r Clwb trefnwyd i'r Swyddog ddechrau'r gweithgareddau trwy gynnal sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith yn y Clwb. Bu i'r sesiynau dilynol gynnwys sesiwn chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg a sesiwn Rap Cymraeg gydag Ed Holden.

Cynhaliwyd prynhawn i'r teulu gyda Daniel Lloyd yng Nghanolfan Gymunedol Llanfwrog yn ystod mis Chwefror a defnyddiwyd y cyfle i hyrwyddo'r a thrafod manteision addysg Gymraeg. Bu i'r Swyddog gynnal Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i oddeutu 300 o blant, pobl ifanc ac oedolion yr ardal yn ystod y flwyddyn. Yn eu mysg Cangen Merched y Wawr Llandegla a Bryneglwys; disgyblion Blwyddyn 12 a 13 Ysgol Brynhyfryd; disgyblion Ysgol Stryd y Rhos, Ysgol y Gwernant a Chaer Drewyn mewn partneriaeth gyda'r Athrawon Bro Sir Ddinbych; Staff Canolfan Hamdden Rhuthun a Staff Meithrinfa'r Felin Rhuthun.

Trefnwyd sesiwn Stori a Chan gyda Jac y Jwc yn Llyfrgell Rhuthun i ddathlu Gŵyl Dewi. Gwahoddwyd rhieni a phlant ifanc yn ystod y bore ac aeth Jac y Jwc ymlaen i Feithrinfa'r Felin yn Rhuthun yn ystod y prynhawn i gynnal sesiwn i'r plant. Yn ystod y flwyddyn bu i'r Swyddog ymweld â chylchoedd Ti a Fi a NCT (National Childbirth Trust) yn yr ardal i hyrwyddo addysg Gymraeg i'r rhieni.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
MEHEFIN 2010